# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**HYDREF 2019**

**TGAU**
**CYMRAEG IAITH - UNED 3**
**3000N30-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2019. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**CYNLLUNIAU MARCIO TGAU**

**CYMRAEG IAITH - UNED 3**

**HYDREF 2019**

**Adran A (Darllen): 30 marc**

Mae 6 darn darllen ar y thema 'Eira' yn y llyfryn darllen sydd ar wahân.

Darllenwch **bob** un o'r darnau'n ofalus ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

**Darn Darllen 1**
**Y Tywydd ar Ddydd Nadolig**

**A1.** Ble disgynnodd y mwyaf o law ar ddydd Nadolig? [1]

Capel Curig, (Gwynedd)
Rhaid sillafu'n gywir.
Casglu gwybodaeth
✓- 1 marc

**A2.** Pryd roedd y tymheredd ar ei oeraf ar ddydd Nadolig? [1]

1878

Casglu Gwybodaeth
✓- 1 marc

**Darn Darllen 2**
**Sut i Fesur Eira**

**A3.** Esboniwch beth sy'n gwneud mesur eira yn fwy anodd na mesur glaw? [2]

- Mae eira yn cael ei chwythu gan y gwynt ac yn lluwchio.
- Mae hyn yn golygu bod yr eira'n ddwfn mewn mannau ond yn llai trwchus dafliad carreg i ffwrdd.

Casglu gwybodaeth a dehongli
✓- 1 marc

**A4.** Pa un o'r ffeithiau yma am fesur eira sy'n gywir? Nodwch drwy roi ✓ yn y golofn briodol. [1]

| | |
|---|---|
| Bydd meteorolegwyr yn mesur cwymp yr eira deirgwaith y dydd. | |
| Mae angen mesur ddwywaith yn yr un lle er mwyn cael darlleniad cywir. | |
| Wrth fesur dyfnder yr eira, yr unig offer sydd ei angen arnoch chi yw pren mesur. | ✓ |
| Dylech chi fesur yr eira mewn man caeedig er mwyn cael darlleniad cywir. | |

Casglu gwybodaeth a dehongli



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 3**
**Neges Bwysig i Rieni**

**A5.** Beth yw prif fwriad y pennaeth yn y darn hwn? Nodwch drwy roi ✓ yn y blwch priodol. [1]

Cyflwyno Gwybodaeth ✓

Diben a phwrpas

**A6.** Pa ffactorau sydd wedi arwain at benderfyniad y pennaeth i gau'r ysgol? [3]

- Ni fydd y cwmnïau bysiau yn gallu dod i gasglu'r disgyblion ar ddiwedd y dydd.
- Mae gormod o eira wedi syrthio ac yn dal i syrthio i fedru parhau i gadw'r ysgol yn agored.
- Diogelwch y plant a'r staff sy'n cael blaenoriaeth – perygl i iechyd a diogelwch / risg i fywyd.
- Mae amodau gyrru a chyflwr palmentydd a ffyrdd o amgylch yr ysgol yn wael.
- Mae'r Swyddfa Dywydd wedi rhybuddio y gall trafnidiaeth gyhoeddus gael ei chanslo wrth i eira dwfn gau rhai ffyrdd.
- Mae toriadau hir i gyflenwadau trydan a gwasanaethau eraill yn debygol
- Wedi ymgynghori â phenaethiaid ysgolion eraill a llywodraethwyr
- Rhybudd coch gan y Swyddfa Dywydd

1 marc am bob rheswm (hyd at 3)

Dehongli
✓- 1 marc

**A7.** Pa air yn y paragraff canlynol sy'n golygu "trafod"? Tanlinellwch y gair. [1]

| |
|---|
| Mae'r penderfyniad i gau wedi ei wneud ar ôl ymgynghori'n ofalus â'r llywodraethwyr a phenaethiaid yr ysgolion cyfagos. Mewn unrhyw benderfyniad, diogelwch ein plant a'n staff sy'n cael blaenoriaeth. Rhaid i ni hefyd ystyried amodau gyrru a chyflwr palmentydd a ffyrdd o amgylch yr ysgol. |

Ystyr gair
✓- 1 marc



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 4**
**Paldaruo**

**A8.** Ar ôl postio ei gŵyn ar fforwm trafod Paldaruo, mae tri o bobl eraill wedi ymateb i neges Dafydd Roberts. Mae pedwar o'r datganiadau isod yn gywir am y sylwadau yn y fforwm. Mae un ateb cywir wedi'i roi i chi'n barod. Rhowch ✓ yn y blychau gyferbyn â'r **tri** sylw cywir arall.
Ticio 4 – tynnu un o'r cyfanswm
Ticio 5 neu fwy – 0 marc [3]

| | |
|---|---|
| Dwy wlad sy'n arfer delio ag eira yw Sweden ac Awstria. | ✓ |
| Mae tri o'r bobl yn cytuno â chau ysgolion oherwydd yr eira. | |
| Mae pobl o wledydd eraill yn synnu bod popeth yng Nghymru yn stopio oherwydd yr eira. | ✓ |
| Mae eira yn Awstria am lai na chwe mis y flwyddyn. | |
| Dydy Angela Hayes ddim yn credu y gallai pobl Cymru wneud mwy i baratoi ar gyfer delio ag eira. | |
| Roedd yn ddiogel teithio ar hyd ffyrdd Casnewydd ddoe. | |
| Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn broblem i athrawon gyrraedd eu gwaith yn ystod cyfnod o eira. | ✓ |
| Mae Jâms ap Rhisiart yn poeni am ddiogelwch ei ferched yn yr eira. | ✓ |

Dehongli
Mewnbynnu marc

**A9.** Pa dechneg ysgrifennu sydd ym mrawddeg olaf barn Dafydd Roberts? [1]

**Cwestiwn rhethregol**

Adnabod techneg arddull
✓- 1 marc

**A10.** Pam mae'r dechneg hon wedi cael ei defnyddio? [2]

- Er mwyn annog darllenwyr y fforwm i ymateb i sylwadau gwreiddiol Dafydd Roberts
- Er mwyn i'r darllenwyr ystyried pa mor gostus yw diwrnod o eira i economi'r wlad
- Er mwyn i'r darllenwyr weld mai'r bobl gyffredin sy'n talu trethi a pherchnogion busnesau fydd ar eu colled yn ariannol oherwydd hyn

**0 marc**
Sylw arwynebol (*e.e. gwneud i ni feddwl*)

**1 marc**
Dechrau dadansoddi ystyr

**2 farc**
Cyfiawnhau'n hyderus.

Dadansoddi
Mewnbynnu marc



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 5**
**Nid yw'r eira yn wynfyd i'r ffermwyr**

**A11.** Beth yw ystyr 'gwynfyd' yn nheitl y darn? Nodwch drwy roi ✓ yn y blwch priodol: [1]

Nefoedd o hapusrwydd ✓

Dehongli ystyr gair

**A12.** Sut mae Gwawr Lewis yn llwyddo i gyfleu'r problemau sy'n wynebu ffermwyr yn ystod cyfnod o eira? [5]

**0 marc**
Heb ymgeisio/ateb amherthnasol

**1** marc
Ailadrodd problemau'n unig gyda pheth tystiolaeth

**2 farc**
Gallu cyfeirio at ambell nodwedd/ffaith o'r darn darllen sy'n dangos bwriad yr awdur, gan ddyfynnu.

**3 marc**
Trafod sawl nodwedd/ffaith o'r darn darllen sy'n dangos bwriad yr awdur gan ddyfynnu a dechrau dadansoddi.

**4 marc**
Trafod yn dda sawl nodwedd/ffaith o'r darn darllen gan ddyfynnu a dadansoddi'n dda.

**5 marc**
Ateb manwl sy'n trafod yn ddeallus nodweddion/ffeithiau arwyddocaol yn y darn gan ddyfynnu a dadansoddi'n hyderus.

Gellir cyfeirio at y canlynol:

| | |
|---|---|
| Ailadrodd | e.e. EIRA, eira a mwy o eira! |
| Trosiad | Gorchuddiwyd y rhan fwyaf o dir Cymru gan flanced wen |
| Cyferbyniad | e.e. Er bod yr eira'n hudol, mae ganddo'r gallu i ddod â'r wlad i stop |
| Ansoddeiriau | e.e. Hudol, torcalonnus |
| Rhestr | e.e. gan gau ysgolion, effeithio ar wasanaethau a busnesau am gyfnod. |
| Trosiad | ergyd drom |
| Cwestiwn Rhethregol | tybed pa fath o dywydd fydd yn ein hwynebu dros y misoedd nesaf? |

Dadansoddi / gwerthuso

Mewnbynnu marc


© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 6**
**Wil ac Aeron – Gwlad y Ceirw**

**A13.** Pa un o'r datganiadau canlynol sy'n gywir? Rhowch ✓ yn un o'r blychau. [1]

| | |
|---|---|
| Mae Wil ac Aeron yn mynd ar daith o dros dri chan milltir gyda'r ceirw. | |
| I ogledd Norwy mae'r ddau yn teithio. | ✓ |

Casglu gwybodaeth


© WJEC CBAC Cyf.

**Darnau Darllen 5 a 6**
**Nid yw'r eira yn wynfyd i'r ffermwyr**
**Wil ac Aeron – Gwlad y Ceirw**

**A14.** Cymharwch brofiadau Gwawr Lewis a'r ffermwyr o'r eira yng Nghymru â phrofiadau Wil ac Aeron o'r eira yn yr Artig. [7]

**0 marc**
Heb ymgeisio/ateb amherthnasol

**1 marc**
Gallu adalw gwybodaeth sylfaenol

**2 farc**
Gallu adalw gwybodaeth sylfaenol am y ddau ac ychydig o ymdrech i gymharu (3+ cymharu cytbwys).

**3marc**
Adalw gwybodaeth yn eithaf manwl gan gymharu'n gyson ond heb ddehongli.

**4 marc**
Adalw gwybodaeth yn eithaf manwl gan gymharu'n gyson a dechrau dehongli

**5 marc**
Ateb manwl sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am y ddau gan gymharu'n effeithiol a dehongli'n gyson a da

**6 marc**
Ateb manwl sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am y ddau gan gymharu'n effeithiol a dehongli'n dda iawn

**7 marc**
Dethol gwybodaeth berthnasol yn ddeheuig gan ddehongli'n aeddfed a chymharu'n effeithiol

Gellir cyfeirio at y canlynol:

- Eira Cymru ac eira'r Arctig
- Gwawr yn sôn am olwg hardd yr eira (er mai twyll yw hyn i'r ffermwyr)
- Gwawr wedi arfer gweld eira, ond ddim cymaint ag a welodd hi'n ddiweddar – trwch mwyaf ers degawdau. Profiadau anghyfarwydd i Gwawr a Wil ac Aeron.
- Eira'n rhwystro pobl yng Nghymru rhag teithio e.e. Gwawr wedi gorfod aros gyda theulu yng Nghaerfyrddin, cerbydau'n methu mynd i ffermydd o gwbl. Dull teithio Wil ac Aeron yn haws - ar gefn *ski-doos* (sy'n berffaith ar yr eira caled ond sy'n dueddol o suddo i'r eira meddal)
- Gwawr wedi profi caredigrwydd ei theulu. Wil ac Aeron yn ymgartrefu gyda dau deulu o Samiaid ac yn cael croeso arbennig iawn.
- Effeithiau negyddol yr eira yng Nghymru; Wil ac Aeron wedi cael llond bol o'r eira erbyn y diwedd
- Er yr effeithiau negyddol, mae'n rhaid i'r ffermwr fynd ymlaen â'i waith. Pwrpas taith Wil ac Aeron hefyd yn allweddol gan fod angen hebrwng y ceirw i arfordir y gogledd lle maen nhw'n geni eu lloi dros yr haf
- Amodau anodd: Eira yn gwneud gwaith y ffermwr yn heriol – ffyrdd heb eu graeanu, methu cael gafael mewn bwyd, dim ffordd i filfeddyg gyrraedd y fferm, lori laeth yn methu cyrraedd i nôl y llaeth; Wil ac Aeron yn gorfod symud cannoedd o geirw dros 200 milltir mewn eira trwchus ac mewn oerfel sy'n brathu



© WJEC CBAC Cyf.

- Gwneud sefyllfa oedd yn anodd yn barod hyd yn oed yn waeth – taflu llaeth; Wil ac Aeron yn fwy ymwybodol mor ffodus ydyn nhw ar ôl bod ac yn cwyno llai ar ôl gweld bywyd mor galed oedd gan y Samiaid
- Gwawr yn poeni am y dyfodol

Cymharu / dehongli

Mewnbynnu marc



© WJEC CBAC Cyf.

**Cwestiwn B1 a B2 (20 marc)**

| | ***CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)*** | ***YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)*** |
|---|---|---|
| **Band 5** | **9-10 marc**<br>• Ysgrifennu aeddfed a threiddgar<br>• Ysgrifennu effeithiol sy'n cynnal diddordeb y darllenydd trwy gydol y darn<br>• Addasu'r cywair priodol yn hyderus i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau yn argyhoeddiadol gyda manylder, gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Adeiladwaith sicr a chydlynol; strwythur soffistigedig i'r ysgrifennu | **9-10 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir<br>• Gafael sicr iawn ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol<br>• Defnydd eang o gystrawennau cywir<br>• Defnydd hyderus a chywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn gywir bron yn ddieithriad<br>• Gafael sicr iawn ar dreigladau<br>• Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 4** | **7-8 marc**<br>• Ysgrifennu sy'n dangos yn glir y gallu i ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol<br>• Ysgrifennu sy'n dangos dealltwriaeth sicr sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Addasu'r cywair yn briodol a chyson i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau gyda manylder sy'n argyhoeddi a cheir peth gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Ysgrifennu wedi ei strwythuro'n bwrpasol a'i drefnu'n eglur i roi dilyniant rhwydd a llyfn | **7-8 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir<br>• Gafael sicr ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig<br>• Defnyddio ystod dda o gystrawennau'n gywir<br>• Defnydd cywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu sicr<br>• Gafael sicr ar dreigladau<br>• Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 3** | **5-6 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol a diddorol ar y cyfan<br>• Ymwybyddiaeth glir sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Cywair yn briodol ac yn addas ar y cyfan i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Syniadau sy'n dangos datblygiad a cheir rhai cyffyrddiadau diddorol yn yr ysgrifennu<br>• Gwaith trefnus sy'n rhoi dilyniant a strwythur | **5-6 marc**<br>• Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir<br>• Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau<br>• Defnyddio ystod o gystrawennau'n gywir ar y cyfan<br>• Defnydd cywir ar y cyfan o ystod o atalnodi<br>• Sillafu mwyafrif y geiriau'n gywir<br>• Mwyafrif y treigladau yn gywir<br>• Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir |



© WJEC CBAC Cyf.

| | CYFATHREBU A THREFN<br>(YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR) | YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI) |
|---|---|---|
| **Band 2** | **3-4 marc**<br>• Peth ysgrifennu cydlynol<br>• Peth ymwybyddiaeth o sut i greu effaith i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Ymdrech glir i addasu cywair i bwrpas/darllenydd<br>• Datblygu rhai syniadau gydag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• Peth trefn ar y gwaith a pheth dilyniant i syniadau | **3-4 marc**<br>• Defnyddio peth ystod o eirfa<br>• Gafael anghyson ar ramadeg<br>• Amrywio brawddegau rywfaint<br>• Peth gafael ar gystrawen<br>• Peth gafael ar ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn eithaf cywir<br>• Treigladau yn eithaf cywir<br>• Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir |
| **Band 1** | **1-2 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol elfennol<br>• Ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r darllenydd<br>• Peth ymdrech i addasu cywair i bwrpas/cynulleidfa<br>• Peth cynnwys perthnasol er yn anghyson<br>• Trefn elfennol a dilyniant syml i syniadau | **1-2 marc**<br>• Ystod gyfyngedig o eirfa<br>• Gafael gyfyngedig ar ramadeg<br>• Defnyddio ystod gyfyngedig o frawddegau<br>• Gafael gyfyngedig ar gystrawen<br>• Peth ymdrech i atalnodi<br>• Sillafu rhai geiriau yn gywir<br>• Gafael gyfyngedig ar dreigladau<br>• Gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |



© WJEC CBAC Cyf.